



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig 2022-23

Fersiwn 1.0 – Ionawr 2024

## Cynnwys

Prif bwyntiau.....	4
Cefndir.....	4
Defnyddio data RTSSS .....	5
Newyddiaduraeth ystyriol.....	6
Cymorth .....	6
Mesur y data.....	6
Ffynonellau data.....	6
Dadansoddi data.....	7
Cryfderau.....	8
Cyfyngiadau .....	8
Canfyddiadau.....	9
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yng Nghymru .....	9
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, preswylwyr Cymru, fesul mis.....	9
Ffigur 1. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, fesul mis, pob person, pob oedran, cyfrifiadau, preswylwyr Cymru, 2022/23.....	10
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl rhanbarth preswyl.....	10
Ffigur 2. Marwolaethau yn ôl hunanladdiad tybiedig, yn ôl rhanbarth preswyl*, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23.....	11
Marwolaethau yn ôl hunanladdiad tybiedig, yn ôl ardal breswyl y bwrdd iechyd.....	11
Ffigur 3. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl ardal breswyl y bwrdd iechyd*, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23 .....	13
Marwolaethau ar sail hunanladdiad tybiedig, yn ôl amddifadedd ardal .....	13
Ffigur 4. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl pumed amddifadedd*, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23 .....	14
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl oedran a rhyw .....	15
Ffigur 5. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl grŵp oedran a rhyw*, pob person, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23 .....	16
Ffigur 6. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl rhyw, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23 .....	17
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn ôl statws cyflogaeth .....	17
Ffigur 7. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl statws cyflogaeth*, cyfradd fras fesul 100,000, 16+ oed, preswylwyr Cymru, 2022/23.....	18
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig a ffactorau cysylltiedig.....	18
Ffigur 8. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, fesul ffactorau cysylltiedig*, pob person,	



pob oedran, cyfrif*, preswylwyr Cymru, 2022/23.....	19
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ar sail a oedd pobl yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl .....	19
Ffigur 9. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ar sail a oedd person yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl, pob person, o bob oedran, cyfrif, preswylwyr Cymru, 2022/23 .....	20
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ar sail a oedd pobl yn hysbys i'r heddlu yn flaenorol .	20
Ffigur 10. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ar sail bod yn hysbys i'r heddlu yn flaenorol*, pob person, pob oedran, cyfrif, preswylwyr Cymru, 2022/23 .....	21
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl y dull marwolaeth .....	21
Ffigur 11. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl dull marwolaeth, pob person, pob oedran, cyfrif*, preswylwyr Cymru, 2022/23.....	22
Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl math o leoliad .....	22
Ffigur 12. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl math o leoliad, pob person, pob oedran, cyfrif*, preswylwyr Cymru, 2022/23.....	23
Casgliadau.....	23
Geirfa.....	24
Atodiad.....	26



## Prif bwyntiau

1. Mae casglu a rhannu data trwy broses Arolygu Hunanladdiad Tybiedig mewn Amser Real yn caniatáu cymryd camau prydlon i atal achosion pellach o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol i ddefnyddwyr ar batrymau cenedlaethol a rhanbarthol.
2. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gasglu data a bydd y broses ddadansoddi yn datblygu wrth i ddata pellach gael eu casglu. Dylai defnyddwyr fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r data oherwydd prinder y gyfres amser a'r niferoedd bach mewn rhai categorïau.
3. Caiff marwolaethau yn sgil achos tybiedig o hunanladdiad eu hadrodd i Iechyd Cyhoeddus Cymru cyn cwest crwner. Rhagwelir y gallai nifer y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig fod yn uwch na nifer yr hunanladdiadau a bennir gan Grwner, oherwydd gall ymchwiliad a chwest Crwner ddod i'r casgliad mai rheswm gwahanol a achosodd y farwolaeth mewn rhai achosion o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig.
4. Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, bu farw 356 o breswylwyr Cymru yn sgil hunanladdiad tybiedig naill yng Nghymru neu du hwnt, gan roi cyfradd o 12.6 fesul 100,000 o bobl.
5. Dynion oedd 78% o farwolaethau oherwydd hunanladdiad tybiedig. Roedd y gyfradd oed-benodol ar ei uchaf ymhlith dynion rhwng 35 a 44 oed (29.4 fesul 100,000), ac yna dynion rhwng 25 a 34 oed (29.2 fesul 100,000).
6. safbwynt ardaloedd preswyl penodol, y Canolbarth a'r Gorllewin oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig (15.7 fesul 100,000), a oedd yn ystadegol wahanol iawn i'r gyfradd Cymru gyfan a chyfradd y Gogledd a'r De-ddwyrain.
7. Roedd cyfraddau marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig ymhlith preswylwyr yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig nesaf (13.9 fesul 100,000 a 13.7 fesul 100,000) yn arwyddocaol uwch yn ystadegol na'r gyfradd ymhlith preswylwyr yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (9.5 fesul 100,000).
8. Y gyfradd hunanladdiad ymhlith pobl ddi-waith oedd 114.1 fesul 100,000, sydd o leiaf 12 gwaith yn uwch nag mewn unrhyw grŵp statws cyflogaeth arall.
9. Roedd 74% o'r marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig ymhlith pobl a oedd yn hysbys i'r heddlu yn flaenorol.

## Cefndir

Sefydlwyd proses Arolygu Hunanladdiad Tybiedig Amser Real (RTSSS) Cymru ar 1 Ebrill 2022. Mae'r RTSSS yn casglu gwybodaeth am farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig sy'n digwydd yng Nghymru, yn ogystal â marwolaethau preswylwyr Cymru sy'n digwydd y tu allan i Gymru.

Nod RTSSS yw creu storfa genedlaethol ganolog o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yng Nghymru a chynhyrchu'r wybodaeth angenrheidiol i lywio gweithgarwch atal hunanladdiad ledled Cymru.

Mae marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn cael eu hadrodd i'r RTSSS cyn cwest crwner. Rhagwelir y gallai nifer y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig fod yn uwch na nifer yr hunanladdiadau a bennir gan Grwner, oherwydd gall ymchwiliad a chwest Crwner ddod i'r casgliad mai rheswm gwahanol a achosodd y farwolaeth mewn rhai achosion o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig.

Mae data ar farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig a adroddir gan RTSSS yn wahanol i ddata hunanladdiad fel yr adroddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Ymhlith yr achosion o hunanladdiadau a adroddir gan y ONS mae marwolaethau sydd wedi eu cofrestru yn dilyn cwest lle mae crwner wedi penderfynu:

- casgliad o hunanladdiad
- casgliad naratif (lle gellir cofnodi'r farwolaeth fel hunan-niweidio bwriadol neu anaf neu wenwyno o fwriad amhendiant, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir gan y crwner)
- casgliad agored (lle gellir codio'r farwolaeth fel anaf neu wenwyno bwriadol amhenodol yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir gan y crwner).

(Cyfraddau hunanladdiad UK QMI. 2019, ONS)

Ystadegau hunanladdiad a gyhoeddir gan yr ONS yw'r ystadegau swyddogol ar hunanladdiad a dylid eu defnyddio at ddibenion cynllunio strategol a chymharu. Cyhoeddwyd ystadegau'r ONS ar farwolaethau a gofrestrwyd yn 2022 ar 19 Rhagfyr 2023.

## Defnyddio data RTSSS

Mae proses y cwest yn golygu y gall gymryd rhwng misoedd a blynyddoedd i gofrestru'r farwolaeth. Gan fod ystadegau hunanladdiad swyddogol ar gyfer marwolaethau a gofrestrwyd yn ystod blwyddyn galendr, mae'n bosibl na fyddant yn adlewyrchu unrhyw newidiadau gwirioneddol yng nghyfradd y marwolaethau oherwydd hunanladdiad tybiedig a ddigwyddodd y flwyddyn honno. Bwriedir i ddata RTSSS fod ar gael yn gynharach nag ystadegau swyddogol fel bod swyddogion arweiniol atal hunanladdiad, fforymau amlasiantaeth lleol ar gyfer atal hunanladdiad, timau iechyd cyhoeddus lleol, yr heddlu, sefydliadau'r trydydd sector ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag atal hunanladdiad, yn gallu ymateb yn gyflym i unrhyw batrymau rhanbarthol neu genedlaethol sy'n codi er mwyn atal marwolaethau yn y dyfodol. Mae defnyddwyr wedi gofyn i ddata fod ar gael at y diben hwn. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn ein galluogi i ddeall tueddiadau mewn modd amserol.

Mae rhagor o wybodaeth am RTSSS ar gael ar wefan [Iechyd Cyhoeddus Cymru – Arolygu Hunanladdiad Tybiedig Amser Real](#). Rydym yn croesawu sylwadau ar yr adroddiad hwn. E-bostiwrch unrhyw adborth, sylwadau neu ymholiadau i [PHW.RTSSS@wales.nhs.uk](mailto:PHW.RTSSS@wales.nhs.uk).



## Newyddiaduraeth ystyriol

Os ydych chi'n newyddiadurwr sy'n trafod newyddion am hunanladdiad, dilynwch ganllawiau'r Samariaid ar gyfer y cyfryngau a chanllawiau adrodd am hunanladdiad yr Independent Press Standards Organisation sy'n cynghori ar sut i leihau'r risg y gallai sylw yn y cyfryngau gael effaith negyddol ar rywun bregus.

## Cymorth

Os oes angen cymorth arnoch, mae gwybodaeth am ffynonellau cymorth yng Nghymru ar gael yma: Cael Cymorth Nawr - NHS SSHP. Gallwch gysylltu â'r Samariaid yn rhad ac am ddim ddydd neu nos, 365 diwrnod y flwyddyn ar 116 123 (y DU a Gweriniaeth Iwerddon) neu yn Gymraeg ar 0808 164 0123 (7pm-11pm), drwy e-bostio [jo@samaritans.org](mailto:jo@samaritans.org), neu ewch i [www.samaritans.org](http://www.samaritans.org) i ganfod eich cangen agosaf. Mae ffynonellau cymorth ychwanegol wedi'u rhestru ar dudalen gymorth y GIG ar gyfer meddyliau hunanladdol.

## Mesur y data

### Ffynonellau data

Cafwyd data yn yr adroddiad hwn o gronfa ddata RTSSS. Darperir gwybodaeth i RTSSS yn bennaf gan bedwar llu'r heddlu yng Nghymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, gan ddefnyddio templed a ddatblygwyd gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain ar gyfer portffolio atal hunanladdiad y National Police Chiefs' Council. Mae ffynonellau eraill yn cynnwys adroddiadau ad hoc gan wasanaethau y tu allan i Gymru, yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol, ac adroddiadau'r cyfryngau.

Mae marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig wedi eu pennu fel hunanladdiad tybiedig gan yr Heddlu (gweler 'hunanladdiad tybiedig' yn y rhestr eirfa).

Defnyddiwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (WIMD) fel amcangyfrif o amddifadedd. Dyma fesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n cynnwys wyth parth / math gwahanol o amddifadedd: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol.

Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn yr ONS (MYE) fel yr enwadur wrth gyfrifo cyfraddau. Mae'r ONS yw'r ffynhonnell swyddogol o feintiau poblogaeth, a gynhyrchir bob blwyddyn, gan gwmpasu poblogaethau awdurdodau lleol, siroedd, rhanbarthau a gwledydd y DU yn ôl oedran a rhyw. Roedd yr enwadur ar gyfer cyfraddau yn seiliedig ar ardaloedd cynnyrch ehangach haen is, MYE 2020.

Defnyddiwyd data Cyfrifiad 2021 ONS ar gyfer amcangyfrif cyfraddau cyflogaeth.



Daeth data lleoliad yn deillio o godau post, 'What Three Words' a data cyfeirnod grid a ddarparwyd gan y cyflenwyr data, ar Grid Cenedlaethol Prydain.

## Dadansoddi data

Mae'r cyfraddau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn gyfraddau bras gan eu bod yn fwyaf addas i lywio gweithredu, sef un o nodau'r RTSSS. Cyfradd fras yw nifer y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig sy'n digwydd mewn poblogaeth dros gyfnod penodol o amser, ac fe'u mynegir fel nifer y marwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae'r rhifiadur (nifer y digwyddiadau) a'r enwadur (amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn) yn seiliedig ar yr un ardal ddaearyddol a dylid eu seilio ar yr un cyfnod amser. Fodd bynnag, defnyddiwyd amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 gan mai'r rhain oedd y diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ardaloedd cynnyrch ehangach haen is.

Cyfraddau amcangyfrifedig yw cyfraddau rhanbarth, bwrdd iechyd, rhyw, oedran / rhyw ac amddifadedd. Cyfrifwyd cyfyngau hyder o 95% o gwmpas y cyfraddau hyn i roi syniad o gywirdeb amcangyfrif y gyfradd.

Ar gyfer cymariaethau rhwng:

- amcangyfrifon rhanbarthol
- amcangyfrifon byrddau iechyd
- amcangyfrifon amddifadedd

a'r gyfradd Cymru gyfan, mae cyfradd Cymru gyfan yn cael ei thrin fel union gyfeiriad (dim cyfwng hyder). Mae hwn yn ddull a ddefnyddir yn eang ar gyfer amcangyfrifon ar raddfa genedlaethol, gyda'r hapgyfeiliornad yn cael ei ystyried yn ddibwys ar gyfer poblogaethau mawr. Os yw cyfwng hyder yr amcangyfrif y tu allan i gyfradd Cymru gyfan, yna mae'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol. Os yw cyfwng hyder yr amcangyfrif yn gorgyffwrdd â chyfradd Cymru gyfan, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ar gyfer cymariaethau rhwng dau amcangyfrif fel:

- amcangyfrif rhanbarthol ac amcangyfrif rhanbarthol arall
- amcangyfrif bwrdd iechyd gydag amcangyfrif bwrdd iechyd arall
- amcangyfrif amddifadedd gydag amcangyfrif amddifadedd arall
- amcangyfrif rhyw gydag amcangyfrif rhyw arall

mae cyfyngau hyder rhwng gwerthoedd nad ydynt yn gorgyffwrdd yn nodi nad yw'r gwahaniaeth yn debygol o fod wedi deillio o amrywiad ar hap (h.y. yn ystadegol arwyddocaol). Fodd bynnag, pan mae'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd, ni allwn benderfynu a oes gwahaniaeth ystadegol



arwyddocaol ai peidio trwy gymharu cyfyngau hyder yn unig, felly mae angen prawf mwy manwl gywir. Edrychodd cymhariaeth baru ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau a chyfyngau hyder 95% y gwahaniaeth. Pan fydd cyfwng hyder y gwahaniaeth cyfradd yn uwch na sero, ystyrir bod y ddwy gyfradd yn sylweddol wahanol gyda hyder 95%.

Felly, lle mae cyfraddau amcangyfrifedig yn cael eu cymharu â'i gilydd, mae gwahaniaeth o bwys ystadegol os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- nid yw cyfyngau hyder y gwerthoedd yn gorgyffwrdd â'i gilydd
- mae'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd, ond nid yw'r cyfwng hyder ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau yn cynnwys sero.

Pan fo'n briodol, amcangyfrifwyd nifer cymedrig (cyfartaledd) yr achosion a'r gwyrriad safonol. Disgwylir bod y cyfrif o fewn un gwyrriad safonol uwchben neu'n is na'r cymedr dwy ran o dair o'r amser. Mae hyn yn mesur a oes cyfrifiadau neu dueddiadau sy'n achosi pryder.

## Cryfderau

Mae'r ffigurau ar gyfer marwolaethau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod a nodwyd ac maent yn rhoi syniad amserol o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig. Mae hyn yn cymharu ag ystadegau swyddogol sy'n cael eu cyhoeddi yn ôl blwyddyn cofrestru, felly gallai'r marwolaethau hynny fod wedi digwydd fisoedd neu flynyddoedd ynghynt.

## Cyfyngiadau

Mae'r data a gesglir yn ddata gwylidwriaeth felly er ein bod yn gallu darparu data mwy amserol nag ystadegau swyddogol, nid yw'r data o ansawdd mor uchel.

Nid oes data tueddiadau ar gael, gan mai dim ond data o 1 Ebrill 2022 sydd ar gael.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys niferoedd bach sy'n dueddol o amrywio.

Mae cyfyngau hyder mawr o amgylch amcangyfrifon y gyfradd.

Efallai na fydd pob achos o farwolaeth yn sgil hunanladdiad tybiedig ymysg preswylwyr Cymru wedi'i nodi oherwydd:

- Nid oes gennym gysylltiadau llawn eto â thimau RTSSS eraill y tu allan i Gymru, felly mae'n bosibl na fyddwn wedi cael gwybodaeth am holl farwolaethau preswylwyr Cymru a ddigwyddodd y tu allan i Gymru.
- Nid oes gennym broses sefydledig ar gyfer cofnodi marwolaethau yn sgil hunanladdiad



tybiedig lle digwyddodd y farwolaeth yn yr ysbyty ar ôl y digwyddiad.

Roedd data ar grŵp ethnig, cyfeiriadedd rhywiol a meddiannaeth yn anghyflawn felly ni chawsant eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Roedd data ar salwch meddwl ac a oedd yr unigolyn yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata o systemau'r Heddlu, nid systemau iechyd, er bod rhai lluoedd heddlu yn cynnwys data o systemau iechyd wrth ddarparu data i RTSSS a gallwn ddilysu rhai setiau data ar wasanaethau iechyd meddwl (ond nid pob un) trwy edrych ar ffynonellau eraill.

Gall maint y broses o gasglu data amrywio rhwng gwahanol luoedd heddlu gan fod systemau gwahanol yn cael eu cyrchu i gael gafael ar ddata.

Mae rhestr o feysydd data wedi'u datblygu ar gyfer yr RTSSS ond nid ydym yn gallu casglu'r holl ddata eto, e.e. crefydd, statws anabledd.

## Canfyddiadau

### Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yng Nghymru

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, bu farw 356 o breswylwyr Cymru yn sgil hunanladdiad tybiedig - naill ai yng Nghymru neu y tu allan i Gymru. Bu farw 19 o bobl oedd yn preswyllo mewn gwledydd eraill mewn achosion o hunanladdiad tybiedig a ddigwyddodd yng Nghymru.


Mae'r dadansoddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r 356 o farwolaethau ymysg preswylwyr Cymru a ddigwyddodd yn sgil hunanladdiad tybiedig.

### Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, preswylwyr Cymru, fesul mis

Roedd nifer y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn amrywio o 19 marwolaeth ym mis Tachwedd 2022 i 36 marwolaeth ym mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023. Nifer cymedrig (cyfartalog) y marwolaethau oedd 30 y mis a'r gwyriad safonol oedd 6. Disgwylir y byddai cyfrifiadau o fewn un gwyriad safonol o'r cymedr tua dwy ran o dair o'r amser, ac roedd hyn yn wir am 10 allan o 12 mis, felly yr amrywiad a welir yw'r hyn a fyddai'n cael ei ddisgwyl.

**O'r data hyn, ni allwch ddod i'r casgliad bod unrhyw amrywiad sylweddol yn nifer y marwolaethau yn sgil hunanladdiad o fis i fis.**

Ffigur 1. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, fesul mis, pob person, pob oedran, cyfrifiadau, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS

## Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl rhanbarth preswyl

Cymariaethau rhwng amcangyfrifon rhanbarthol a chyfradd Cymru gyfan

Roedd cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn arwyddocaol uwch yn ystadegol yn y Canolbarth a'r Gorllewin (15.7 fesul 100,000, 95% CI 13.1-18.7 fesul 100,000) o gymharu â chyfradd Cymru gyfan (12.6 fesul 100,000), gan nad oedd cyfwng hyder y gyfradd yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn gorgyffwrdd â chyfradd Cymru gyfan. Roedd y cyfraddau yn rhanbarthau'r Gogledd a'r De-ddwyrain yn is na chyfradd Cymru gyfan, ond nid oedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol, gan fod y cyfyngau hyder yn cynnwys cyfradd Cymru gyfan.


### Cymariaethau rhwng amcangyfrifon rhanbarthol

Mae cyfyngau hyder 95% yr amcangyfrifon cyfradd rhanbarthol yn gorgyffwrdd ond gan fod dau amcangyfrif gyda chyfyngau hyder sy'n gorgyffwrdd yn dal i allu bod yn arwyddocaol wahanol yn ystadegol, gwnaed profion pellach gan ddefnyddio cymhariaeth paru rhanbarthau. Roedd yn

dangos bod y gyfradd yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn arwyddocaol uwch yn ystadegol na'r gyfradd yn y Gogledd a'r De-ddwyrain (gweler y canlyniadau yn atodiad).

**O'r data hyn, gallwch ddod i'r casgliad** bod cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn arwyddocaol uwch yn ystadegol yn y Canolbarth a'r Gorllewin o'i gymharu â chyfradd Cymru gyfan, a'r gyfradd yn y Gogledd a'r De-ddwyrain.

Ffigur 2. Marwolaethau yn ôl hunanladdiad tybiedig, yn ôl rhanbarth preswyl\*, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS ac MYE (ONS)  
 \*Roedd data rhanbarth ar goll ar gyfer 4 achos felly nid yw'r achosion hyn wedi'u cynnwys.

### Marwolaethau yn ôl hunanladdiad tybiedig, yn ôl ardal breswyl y bwrdd iechyd

Cymariaethau rhwng amcangyfrifon byrddau iechyd a chyfradd Cymru gyfan  
 Roedd cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn arwyddocaol uwch yn ystadegol ymhlith preswylwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (19.9 fesul 100,000, 95% CI 12.8-29.6 fesul 100,000) o'i gymharu â chyfradd Cymru gyfan (12.6 fesul 100,000). Fodd bynnag, roedd y cyfyngau



hyder o gwmpas y gyfradd yn eang oherwydd bod y gyfradd yn seiliedig ar 24 marwolaeth mewn poblogaeth gymharol fach. Gall newidiadau mewn niferoedd bach wneud i gyfradd ymddangos yn sylweddol pan allai fod wedi digwydd oherwydd amrywiad ar hap.


Roedd y cyfraddau ymhlith preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (16.3 fesul 100,000) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (13.1 fesul 100,000) hefyd yn uwch na chyfradd Cymru gyfan, ond roedd y cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd â chyfradd Cymru gyfan felly nid oeddent yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd cyfraddau gweddill ardaloedd y byrddau iechyd yn is na chyfradd Cymru gyfan, er nad oeddent yn wahanol iawn yn ystadegol i gyfradd Cymru gyfan.

Cymariaethau rhwng amcangyfrifon byrddau iechyd

Mae cyfyngau hyder 95% amcangyfrifon cyfradd y bwrdd iechyd yn gorgyffwrdd ond gan fod dau amcangyfrif gyda chyfyngau hyder sy'n gorgyffwrdd yn dal i allu bod yn arwyddocaol wahanol yn ystadegol, gwnaed profion pellach gan ddefnyddio cymhariaeth paru byrddau iechyd. Roedd yn dangos bod cyfraddau preswylwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn arwyddocaol uwch yn ystadegol na chyfraddau preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol eraill rhwng y byrddau iechyd oedd yn weddill.

O'r data hyn, gallwch ddod i'r casgliad bod cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn uwch ymhlith preswylwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys o'i gymharu â chyfradd Cymru gyfan ac o'i gymharu â phreswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Roedd cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn uwch ymhlith preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe o'i gymharu â phreswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Ffigur 3. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl ardal breswyl y bwrdd iechyd\*, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS ac MYE (ONS)

\* Roedd data ardal breswyl y bwrdd iechyd ar goll mewn 6 achos, felly nid yw'r achosion hyn wedi'u cynnwys.

### Marwolaethau ar sail hunanladdiad tybiedig, yn ôl amddifadedd ardal

Cymariaethau rhwng amcangyfrifon amddifadedd ardal a chyfradd Cymru gyfan

Roedd cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn arwyddocaol is yn ystadegol ymhlith preswylwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, sef 9.5 fesul 100,000 (95% CI 7.2-12.4 fesul 100,000) o'i gymharu â chyfradd Cymru gyfan (12.6 fesul 100,000). Roedd y cyfraddau yn uwch na'r gyfradd Cymru gyfan o safbwynt preswylwyr yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, mwyaf difreintiedig nesaf a'r rhai lleiaf difreintiedig, ond roedd y cyfyngau hyder ynglŷn â'r cyfraddau yn gorgyffwrdd â chyfradd Cymru gyfan felly nid oeddynt o arwyddocâd ystadegol.


Cymariaethau rhwng amcangyfrifon amddifadedd ardal

Mae'r cyfyngau hyder 95% o ran y gyfradd amddifadedd yn gorgyffwrdd â'i gilydd, ond gan fod dau

amcangyfrif gyda chyfyngau hyder sy'n gorgyffwrdd yn dal i allu bod yn ystadegol wahanol, gwnaed profion pellach gan ddefnyddio'r gymhariaeth paru rhanbarthau. Dangosodd fod y cyfraddau hunanladdiad tybiedig ymhlith preswylwyr yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r rhai mwyaf difreintiedig nesaf (13.9 fesul 100,000 a 13.7 fesul 100,000) yn arwyddocaol uwch yn ystadegol na chyfradd preswylwyr yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (9.5 fesul 100,000).

O'r data hyn, gallwch ddod i'r casgliad bod cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn arwyddocaol uwch yn ystadegol ymhlith preswylwyr yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Ffigur 4. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl pumed amddifadedd\*, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS a WIMD 2019 (LIC)

\* Roedd data preswylwyr ar goll mewn 7 achos felly nid yw'r achosion hyn wedi'u cynnwys.



## Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl oedran a rhyw

Dynion 35-44 oed (29.4 fesul 100,000) oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ac yna dynion 25-34 oed (29.2 fesul 100,000).


Roedd cyfyngau hyder nad oeddent yn gorgyffwrdd yn dangos bod y gyfradd ymhlith dynion rhwng 35 a 44 oed a 25-34 oed yn arwyddocaol uwch yn ystadegol nag ym mhob grŵp oedran benywaidd ac ymhlith dynion rhwng 10 a 24 oed. Hefyd, roedd y prawf paru (gweler atodiad) yn dangos bod y gyfradd ymhlith dynion rhwng 35 a 44 oed yn arwyddocaol uwch yn ystadegol nag ymhlith dynion rhwng 65 a 74 oed a bod y gyfradd ymhlith dynion rhwng 25 a 34 oed yn arwyddocaol uwch yn ystadegol nag ymhlith dynion 55-64 oed a 65-74 oed.

Roedd y gyfradd yn uwch ymhlith dynion o gymharu â menywod ym mhob grŵp oedran. Roedd y gwahaniaeth yn y gyfradd ar gyfer dynion a menywod yn arwyddocaol wahanol yn ystadegol ym mhob grŵp oedran (fel y dangosir gan gyfyngau hyder nad ydynt yn gorgyffwrdd) ar wahân i'r grŵp oedran 10-24 oed, y cadarnhawyd nad oedd yn arwyddocaol wahanol yn ystadegol i'r prawf paru (gweler atodiad).

Roedd y gyfradd uchaf ymhlith menywod yn y grŵp oedran 25-34 oed (9.5 fesul 100,000), ac yna'r grŵp oedran 35-44 oed (8.3 fesul 100,000).

Dynion oedd 78% (276 allan o 356) o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig. Roedd y gyfradd ymhlith dynion (19.9 fesul 100,000, 95% CI 17.6-22.4 fesul 100,000) yn arwyddocaol uwch yn ystadegol o gymharu â chyfradd Cymru gyfan (12.6 fesul 100,000) a chyfradd y marwolaethau mewn menywod (5.6 fesul 100,000, 95% CI 4.4-6.9 fesul 100,000). Roedd cyfradd y farwolaeth ymhlith menywod yn arwyddocaol is yn ystadegol na chyfradd Cymru gyfan.


Ffigur 5. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl grŵp oedran a rhyw\*, pob person, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS ac MYE (ONS)

\* Roedd data oedran ar goll mewn 1 achos benywaidd felly nid yw'r achos hwn wedi'i gynnwys.

Ffigur 6. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl rhyw, cyfradd fras fesul 100,000, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS ac MYE (ONS)


## Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn ôl statws cyflogaeth

Roedd y gyfradd uchaf o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig ymhlith pobl lle'r oedd statws cyflogaeth wedi'i gofnodi fel di-waith (114.1 fesul 100,000). Roedd hyn yn arwyddocaol uwch yn ystadegol nag unrhyw grŵp statws cyflogaeth arall a dros 12 gwaith yn uwch na'r grŵp uchaf nesaf sef pobl a oedd wedi ymddeol (9.2 fesul 100,000). Fodd bynnag, dylid nodi, mewn 20% o farwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig bod y statws cyflogaeth yn anhysbys. Gallai hyn effeithio ar y canfyddiadau (drwy gynyddu neu ostwng y gyfradd) os oedd y rhai â statws cyflogaeth anhysbys yn fwy tebygol neu'n llai tebygol o fod yn ddi-waith.

O'r data hyn, gallwch ddod i'r casgliad bod cyfradd y marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig yn arwyddocaol uwch yn ystadegol ymhlith pobl yr adroddwyd eu bod yn ddi-waith o gymharu ag unrhyw grŵp statws cyflogaeth arall.



Ffigur 7. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, yn ôl statws cyflogaeth\*, cyfradd fras fesul 100,000, 16+ oed, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS a data statws gweithgarwch economaidd (ONS)


\* Roedd y statws cyflogaeth yn anhysbys mewn 72 o achosion felly nid ydynt wedi'u cynnwys.

## Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig a ffactorau cysylltiedig

Y ffactor cysylltiedig mwyaf cyffredin oedd salwch meddwl, a adroddwyd mewn 168 o'r 356 (47%) o bobl a fu farw yn sgil hunanladdiad tybiedig. Cofnodwyd achos o gamddefnyddio alcohol a sylweddau mewn 80 allan o 356 (22%) o farwolaethau, ac adroddwyd hanes cyflawnwr cam-drin domestig mewn 67 allan o 356 (19%) o'r bobl a fu farw oherwydd hunanladdiad tybiedig.

O'r data hyn ni allwch ddod i'r casgliad beth oedd y risg o hunanladdiad mewn rhywun â salwch meddwl neu ffactor cysylltiedig arall, gan nad oedd data enwadrol ar gael.

**Ffigur 8. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, fesul ffactorau cysylltiedig\*, pob person, pob oedran, cyfrif\*, preswylwyr Cymru, 2022/23**



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS

\* Mae ffactorau cysylltiedig lluosog wedi'u rhestru, felly efallai bod rhai yn cael eu cyfrif mewn mwy nag un categori.

\* Mae cyfrifiadau o dan 5 wedi'u dileu.

## Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ar sail a oedd pobl yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl

O'r 356 o bobl a fu farw yn sgil hunanladdiad tybiedig, roedd 96 (27%) yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl, 152 (43%) ddim yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl, ac ni wyddom a oedd 108 (30%) yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl (ffigwr 9), felly mae'n bosibl bod y ffigur hwn yn tanamcangyfrif.

Nid oedd gan bob person a oedd yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl achos hysbys o salwch meddwl. O'r 168 o bobl a fu farw yn sgil hunanladdiad tybiedig lle'r oedd salwch meddwl yn ffactor cysylltiedig, roedd 71 (42%) yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl, 47 (28%) ddim yn hysbys i

wasanaethau iechyd meddwl ac ni wyddom a oedd 50 (30%) yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl (heb eu dangos ar y siart).

O'r data hyn, ni allwch ddod i'r casgliad ynghylch yr hyn a olygir wrth 'yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl'. Does dim digon o wybodaeth eto i benderfynu sut oedd pobl yn hysbys i wasanaethau. Ffigur 9. Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ar sail a oedd person yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl, pob person, o bob oedran, cyfrif, preswylwyr Cymru, 2022/23



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data RTSSS


## Marwolaethau yn sgil hunanladdiad tybiedig, ar sail a oedd pobl yn hysbys i'r heddlu yn flaenorol

